Adroddiad i'r	Cyngor Sir
Dyddiad y Cyfarfod	13eg Ebrill 2021
Aelod/Swyddog Arweiniol	Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd
Teitl	Penodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau ar gyfer Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen i'r Cyngor benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau i gyflawni'r ddwy rôl hyd nes y penodir Prif Weithredwr newydd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Penodi Nicola Stubbins yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych i ddal y swydd nes penodi Prif Weithredwr newydd

3.2. Penodi Nicola Stubbins yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol yn Sir Ddinbych i ddal y swydd nes penodi Prif Weithredwr newydd.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Adran 8 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn ei gwneud yn ofynnol penodi swyddog o'r Cyngor yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer ei ardal.

4.2. Mae Adran 35 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn ei gwneud yn ofynnol penodi swyddog o'r Cyngor yn Swyddog Canlyniadau Etholiadau Llywodraeth Leol ar gyfer ei ardal.

4.3. Mae'n arfer cyffredin mewn llawer o awdurdodau lleol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau fod yr un person, sy'n aml yn arwain at benodi uwch swyddog i'r ddwy swydd. Yn Sir Ddinbych yr arfer fu penodi'r unigolyn sy'n Brif Weithredwr i ddal y ddwy swydd.

4.4. Yn dilyn ymadawiad y cyn Brif Weithredwr ar 6 Ebrill 2021 mae angen penodi uwch swyddog o'r Cyngor i ddal y ddwy swydd nes y penodir Prif Weithredwr newydd.

4.5. Mae Erthygl 18 (2)(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, fel y'i diwygiwyd, yn dynodi'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol fel y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholaeth Senedd Cymru sydd wedi'i lleoli'n gyfan gwbl yn y Sir. Felly, bydd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol yn Sir Ddinbych hefyd yn cael ei ddynodi'n Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholaeth Senedd Cymru Dyffryn Clwyd.

4.6. Mae Rheoliad 2A Rheoliadau Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012 yn darparu, pan fydd etholiad Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei gynnal yr un pryd ag etholiad Senedd Cymru, mai Swyddog Canlyniadau etholaeth berthnasol Senedd Cymru fydd y Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn yr ardal etholaethol honno.

4.7. Y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau Seneddol yn yr ardal hon yw Uchel Siryf Sir Gadwedig Clwyd, ond dim ond swyddogaethau cyfyngedig y gall yr Uchel Siryf eu cyflawni (yn amodol ar roi'r rhybudd gofynnol), megis derbyn y gwrit gan Glerc y Goron mewn Siawnsri a datgan y canlyniad yn dilyn cyfrif y pleidleisiau. Mae Gorchymyn Swyddogion Canlyniadau (Etholaethau Seneddol) (Cymru) 2007 yn dynodi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych fel y Swyddog Canlyniadau Dros Dro ar gyfer Etholaeth Seneddol Dyffryn Clwyd.

4.8. Dylai'r Cyngor nodi bod gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau swyddogaethau statudol, ac fod y cyfrifoldeb am bob rôl yn un o natur bersonol ac ar wahân i'w dyletswyddau fel un o weithwyr y cyngor. Er eu bod wedi'u penodi a'u cyflogi gan y Cyngor, mae'r ddwy rôl yn “Swyddogion Annibynnol ar ran y Goron”. Er enghraifft, mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol yn bersonol am y wybodaeth a gedwir ar y Gofrestr Etholwyr ac mae ganddo drwydded ar wahân i drwydded y Cyngor Sir gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn yr un modd, gellid cyflwyno deiseb etholiad yn erbyn y Swyddog Canlyniadau ac nid y Cyngor Sir yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol yn dilyn canlyniad etholiad

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau â Chraffu

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg na fydd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol i benodi swyddog i'r swyddi hyn os na wneir penodiad. Mae etholiadau Senedd Cymru i fod i gael eu cynnal ar 6ed Mai 2021.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 8 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

11.2. Adran 35 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983